RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ddydd Mercher, 7 Hydref 2026.

Yn bresennol:	Y Cynghorydd Geraint Bebb (Cadeirydd) Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd) Y Cynghorwyr Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Kenneth P Hughes, Robert Ll Jones, Jackie Lewis, Dafydd Roberts (o 2.05 pm ymlaen ar gyfer ceisiadau 10.1 & 12.2 yn unig), John Paul Taylor a Robin Williams
Ymddiheuriadau:	Y Cynghorydd Euryn Morris Y Cynghorydd Nicola Roberts - Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

(1.00 o'r glo - 2.15 o'r gloch)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**2 Datganiad o Ddiddordeb**
PENDERFYNIAD	Bu'r Cynghorydd Neville Evans ddatgan diddordeb personol a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â chais 12.1 - Parc Solar Traffwll, Llanfihangel yn Nhowyn gan ei fod yn gwrthwynebu lleoli ffermydd solar ar dir amaethyddol. Fel yr Aelod Lleol, cyflwynodd sylwadau Cyngor Cymuned Bryngwran i'r Pwyllgor a gadawodd y cyfarfod yn dilyn hynny tra cynhaliwyd y drafodaeth a'r bleidlais. Bu'r Cynghorydd Kenneth P Hughes ddatgan diddordeb personol a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â chais 12.1 - Parc Solar Traffwll, Llanfihangel yn Nhowyn gan ei fod yn gwrthwynebu lleoli ffermydd solar ar dir amaethyddol a'i fod wedi llunio barn ymlaen llaw. Yn dilyn cyngor cyfreithiol, gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais. Bu'r Cynghorydd Jackie Lewis ddatgan diddordeb personol a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â chais 12.1 - Parc Solar Traffwll, Llanfihangel yn Nhowyn gan ei bod yn gwrthwynebu lleoli ffermydd solar ar dir amaethyddol a'i bod wedi llunio barn ymlaen llaw. Gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**3 Cofnodion**

PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 2 Medi, 2026 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**4 Ymweliad Safleoedd**
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**5 Siarad Cyhoeddus**
PENDERFYNIAD	Cafwyd Siaradwr Cyhoeddus mewn perthynas â chais 12.1.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**6 Ceisiadau fydd yn cael eu gohiro**
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**7 Ceisiadau'n Codi**
RHIF YR EITEM A'R PWNC	**7.1 FPL/2026/34 – Cais ôl-weithredol i gadw'r adeilad presennol fel llety gwyliau yn Tŷ Llwyd, Llanfaelog.** **PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**8 Ceisiadau Economaidd**
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	**9 Ceisiadau am Dy Fforddiadwy**
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A’R PWNC	**10 Ceisiadau'n gwyro**
PENDERFYNIAD	**10.1 FPL/2025/258 – Cais llawn ar gyfer defnyddio carafán sefydlog bresennol ar gyfer llety preswyl atodol dros dro yn Marianfa, Marianglas** **PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.**

RHIF YR EITEM A’R PWNC	**11 Cynigion datblygu a gyflwynwyd gan Gynghorwyr a Swyddogion**
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o’r fath yn ystod y cyfarfod hwn o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A’R PWNC	**12 Gweddill y Ceisiadau**
PENDERFYNIAD	**12.1 FPL/2025/291 - Cais llawn ar gyfer gosod ceblau tanddaearol sy'n gysylltiedig â Pharc Solar Traffwll ar dir yn Llanfihangel yn Nhowyn.** **PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.** **12.2 FPL/2026/41 – Cais llawn i ailddatblygu’r safle i ddarparu 10 tŷ fforddiadwy a chyfleuster gofal gyda phedair ystafell wely a chyfleusterau gofal ategol ar y llawr isaf a 2 fflat hunangynhwysol ar y llawr cyntaf, ynghyd ag addasu’r fynedfa i gerbydau a gwaith cysylltiedig ym Mhlas Penlan, Ffordd Bron y Felin, Llangefni.** **PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog, yn amodol ar yr amodau cynllunio yn yr adroddiad.**

RHIF YR EITEM A’R PWNC	**13 Materion Eraill**
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o’r fath yn ystod

	y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.